Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Rhaglen Arolygwyr Cymheiriaid 2024-2025

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Pwy all gyflwyno datganiad o ddiddordeb i ddod yn arolygydd cymheiriaid AGC?

Ymarferwyr sydd wedi'u cyflogi gan awdurdod lleol ar lefel rheolwr tîm (neu lefel gyfatebol) neu uwch sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. **Rhaid** i'r unigolyn feddu ar Dystysgrif Fanylach foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn ymgymryd â rôl arolygydd cymheiriaid.

### 2. A oes angen i bennaeth y gwasanaeth gymeradwyo fy natganiad o ddiddordeb i ddod yn arolygydd cymheiriaid AGC?

Oes, rhaid i'r pennaeth gwasanaeth perthnasol gymeradwyo unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 3. Sut y caiff cyflogwyr arolygwyr cymheiriaid eu digolledu am y gwaith y bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymgymryd ag ef?

Bydd telerau ac amodau cyflogwr yr arolygydd cymheiriaid (yr awdurdod lleol perthnasol) yn parhau'n gymwys a bydd yn cael ei dalu drwy ei gyflogwr. Bydd y cyflogwr yn anfonebu AGC / Llywodraeth Cymru am gost ddyddiol benodedig ynghyd ag unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth (yn seiliedig ar gyfraddau telerau ac amodau'r cyflogwr).

Ceir cytundeb Cydweithio sy'n nodi'r holl fanylion perthnasol a chaiff ei lofnodi gan yr arolygydd cymheiriaid unigol, ei gyflogwr ac AGC.

### 4. A yw arolygwyr cymheiriaid yn cyfrannu'n llawn at weithgarwch arolygu?

Ydyn, mae arolygwyr cymheiriaid yn aelodau llawn o'r tîm arolygu. Bydd arolygydd arweiniol AGC yn rhoi cyfarwyddyd i'r tîm arolygu ac yn ystyried sgiliau a phrofiad aelodau'r tîm arolygu wrth neilltuo tasgau arolygu.

### 5. A fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael hyfforddiant?

Byddant, bydd arolygwyr cymheiriaid yn cael hyfforddiant cychwynnol i'w cefnogi yn eu rôl. Pan fyddwch yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu, bydd gennych fentor, a fydd hefyd yn un o aelodau'r tîm arolygu.

**6. A fydd gliniaduron/dyfeisiau a ffonau symudol yn cael eu darparu i arolygwyr cymheiriaid?**

Mae AGC yn gofyn yn garedig i arolygwyr cymheiriaid ddefnyddio eu ffôn symudol gwaith os bydd angen. Mae'n ofynnol i arolygwyr cymheiriaid ddefnyddio eu gliniaduron gwaith eu hunain wrth ymgymryd â rôl arolygydd cymheiriaid.

Trefnir bod arolygwyr cymheiriaid yn gallu darllen ffeiliau penodedig fel rhan o'r arolygiad. Bydd yr arolygydd cymheiriaid yn gallu eu darllen naill ai ar ei liniadur gwaith, neu ar liniadur a gaiff ei ddarparu gan yr awdurdod lleol sy'n cael ei arolygu.

Bydd AGC yn rhoi gwybodaeth i arolygwyr cymheiriaid am sut i ddefnyddio Objective Connect er mwyn rhannu gwybodaeth yn ddiogel. Rhaid sicrhau bod Microsoft 365 wedi'i lawrlwytho ar liniaduron gwaith arolygwyr cymheiriaid er mwyn iddynt allu defnyddio Objective Connect. Pe byddai problemau technegol yn codi, gofynnir i arolygwyr cymheiriaid wneud nodiadau ar bapur ar ddiwrnod yr arolygiad a'u cyflwyno i'w mentor ar ddiwedd y dydd. Ni chaiff yr arolygydd cymheiriaid wneud unrhyw nodiadau digidol y tu allan i Objective Connect.

**7. Am ba hyd y bydd arolygydd cymheiriaid yn ymwneud â'r gweithgarwch arolygu?**

Mae AGC yn defnyddio dull hybrid wrth ymgymryd â gweithgarwch arolygu, gyda rhywfaint yn cael ei gynnal o bell a rhywfaint ar safle arolygu/lleoliad arall.

Gellid gofyn i arolygydd cymheiriaid gymryd rhan mewn gwiriad sicrwydd neu arolygiad gwerthuso perfformiad. Bydd yr union amser y byddai arolygydd cymheiriaid yn ei dreulio yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn amrywio yn dibynnu ar amserlen y gweithgarwch ar gyfer yr arolygydd cymheiriaid, ond ni fyddai'n fwy o amser na'r amserlenni a nodir isod. Mae'n bosibl y bydd arolygwyr cymheiriaid yn cymryd rhan yn y broses o adolygu cofnodion gofal cymdeithasol a/neu gyfweliadau/grwpiau ffocws.

Cynhelir gwiriadau sicrwydd dros dri diwrnod yn olynol, rhwng 8:30 a 17:00 bob dydd fel arfer.

Cynhelir arolygiadau gwerthuso perfformiad dros bum diwrnod yn olynol, rhwng 8:30 a 17:00 bob dydd fel arfer.

Caiff amser ei ddyrannu ar gyfer gwaith paratoi cyn arolygiad ac ar ôl arolygiad, gan gynnwys cwblhau adnoddau arolygu.

Yr uchafswm amser arolygu, gan gynnwys gweithgarwch cyn ac ar ôl arolygiad, yw chwe diwrnod ar gyfer gwiriad sicrwydd ac wyth diwrnod ar gyfer arolygiad gwerthuso perfformiad.

**8. Faint o rybudd y bydd arolygwyr cymheiriaid yn ei gael cyn ymgymryd â gweithgarwch arolygu?**

Unwaith y bydd arolygiad wedi'i ddyrannu i arolygydd cymheiriaid, cysylltir â'r arolygydd cymheiriaid i drafod dyddiad ac ardal yr arolygiad. Byddwch yn cael gwybod enw'r awdurdod lleol sy'n cael ei arolygu ryw bedair wythnos cyn dyddiad dechrau'r arolygiad.

**9. Faint o arolygiadau y bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymwneud â nhw?**

Bydd cam dau y rhaglen arolygwyr cymheiriaid beilot yn rhedeg o 1 Tachwedd 2024 a 31 Mai 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, a lle y bo'n bosibl, hoffem i arolygydd cymheiriaid unigol ymgymryd ag o leiaf ddau arolygiad.